

Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cefnogi unigolion i reoli eu gweithgareddau bywyd bob dydd yn ddiogel ac yn annibynnol ac i barhau i fyw gartref. Mae'n cynnwys helpu unigolion i adennill, cynnal a datblygu sgiliau a hyder, gosod a tracio goliau, ac addasu cymorth yn ôl yr angen.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cefnogi unigolion i nodi eu dewisiadau a chanlyniadau ar gyfer rheoli eu bywyd bob dydd gartref
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i asesu eu gallu, eu diogelwch a'u hannibyniaeth gartref
3. cefnogi unigolion ac eraill i nodi a chynllunio sut i adennill, cynnal a datblygu eu sgiliau
4. gweithio ag unigolion ac eraill i gytuno ar goliau y gellir eu cyflawni a chanlyniadau y gellir eu mesur
5. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi a chael gafael ar y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen
6. cytuno ag unigolion ac eraill ar sut y bydd goliau a chanlyniadau'n cael eu monitro a'u hadolygu
7. grymuso unigolion i ymgymryd â gweithgareddau mewn ffyrdd sy'n hybu eu diogelwch, eu hannibyniaeth a'u hyder
8. arsylwi ar unigolion yn ymgymryd â'u gweithgareddau bob dydd a monitro cynnydd
9. nodi ac annog cynnydd a chyflawniadau unigolion
10. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i fonitro risgiau a newidiadau ac adolygu eu goliau a'u canlyniadau
11. gweithio ag unigolion ac eraill i gytuno ar newidiadau o ran cymorth ac adnoddau
12. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu bywyd bob dydd gartref
13. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu bywyd bob dydd gartref

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut mae cael gwybod am ddewisiadau unigolion a chanlyniadau ar gyfer bywyd bob dydd gartref
2. sut mae cefnogi unigolion i nodi eu gallu, eu diogelwch a'u hannibyniaeth
3. pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ag unigolion i gynllunio'r gwaith o ddatblygu sgiliau
4. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen i reoli eu bywyd bob dydd
5. yr amrywiaeth o adnoddau, gwasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael a all gefnogi unigolion i reoli eu bywyd bob dydd
6. sut mae cael gafael ar wybodaeth a chynghor am faterion domestig, personol, cymdeithasol ac ariannol
7. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi'r unigolyn i reoli ei fywyd bob dydd
8. sut mae sefydlu meini prawf clir a mesuradwy i asesu cynnydd tuag at ganlyniadau
9. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i genogi unigolion i reoli eu bywyd bob dydd gartref
10. egwyddorion asesiadau risg a rheoli risgiau
11. rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cefnogi o ran hybu llesiant ac annibyniaeth unigolion
12. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar fywyd bob dydd
13. sut mae cefnogi, annog ac ysgogi unigolion i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau i reoli bywyd bob dydd
14. pwysigrwydd atgyfnerthu cryfderau a chynnydd mewn ffordd gadarnhaol
15. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i reoli eu bywyd bob dydd
16. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn bywyd bob dydd
17. egwyddorion ail-alluogi
18. dulliau tracio cynnydd, casglu tystiolaeth a rhoi adborth i lywio canlyniadau gwerthusiadau
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i werthuso cymorth, adnoddau a chanlyniadau
20. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu bywyd bob dydd

gartref

21. damcaniaethau sy'n berthnasol i hybu bywyd bob dydd gartref
22. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu bywyd bob dydd gartref
23. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion i reoli eu bywyd bob dydd
24. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu bywyd bob dydd gartref
25. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu bywyd bob dydd gartref, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu bywyd bob dydd gartref

Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Datblygwyd gan	Skills for Care & Development
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2026
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2031
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skills for Care and Development
RCU gwreiddiol	HSCCLD314
Galwedigaethau perthnasol	Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant
Cyfes/Set	Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu
Geiriau Allweddol	bywyd bob dydd, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu